# Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.15 ar 13 Tachwedd 2023, yn y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.**

| | |
|---|---|
| Aelodau â phleidlais: | Yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor; Mr Tom Bates; yr Athro Hazel Davey; yr Athro Sarah Davies; yr Athro Iain Donnison; Dr Patrick Finney, Dirprwy Is-Ganghellor Dros Dro (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd); Miss Elain Gwynedd, Llywydd UMCA; yr Athro Mererid Hopwood; Dr Aloysius Igboekwu; yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr); Dr Alex Mangold; yr Athro Louise Marshall; Dr Julie Mathias; Mr Will Parker, Swyddog Materion Academaidd Undeb Aberystwyth; Ms Jen Phipps; Dr Alexander Pitchford; Dr Samuel Raybone; yr Athro Phillipp Schofield; Dr Alistair Shepherd; Mr Bayanda Vundamina, Llywydd Undeb Aberystwyth; yr Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion. |
| Aelodau heb bleidlais: | Yr Athro Iain Barber; Mr Prysor Davies; Dr Gwion Evans; Dr Hywel Griffiths Cangen PA o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Dr Thomas Jansen; Dr Kim Knowles; yr Athro Huw Morgan; yr Athro Charles Musselwhite; Dr Olaoluwa Olusanya; yr Athro Helen Roberts, Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil; Dr Steve Thompson. |
| Yn gweinyddu: | Mrs Kim Bradick Dirprwy Gofrestrydd (Ysgrifennydd); Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Ian Munton, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Fyfyrwyr; Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg. |

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Dr Otar Akanyeti; Dr Hanna Binks; Yr Athro Nigel Copner; Mr Tim Davies, Pennaeth Gwasanaethau Gwybodaeth; Ms Michelle Dickson, Cofrestrydd Academaidd; Yr Athro Andy Evans; Yr Athro Angela Hatton, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); Mr Jonathan Fry, Cadeirydd Cangen PA o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Dr Ffion Jones; Ms Jackie Sayce; yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); Dr Anoush Simon; Dr Lucy Trotter; yr Athro Catrin Webster

---

**13. CROESO**

Estynnwyd croeso i Dr Hywel Griffiths a oedd yn cynrychioli Cangen PA o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## 14. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

## 15. COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2024 (SEN2425-015).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

## 16. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi’r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2425-016).

NODWYD

1. Rhoddwyd diweddariad i'r Senedd ar y penderfyniad i dderbyn yr enw 'Cadair Aberystwyth mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol’ yn ffurfiol, a gymeradwywyd gan y Senedd ym mis Mehefin 2023; roedd hyn yn amodol ar gyfarfod Bwrdd Woodrow Wilson. Argymhellwyd bod Dr Alistair Shepherd, Pennaeth Dros Dro, Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, yn cael ei ethol i Fwrdd Woodrow Wilson yn lle Dr Parick Finney a oedd wedi dod i ddiwedd ei dymor ar y Bwrdd. Bydd yr eitem yn cael ei symud i cyflawnwyd ar y cofnodydd gweithredu ar gyfer y Senedd.

2. Bydd y Cofrestrydd Academaidd yn adrodd yn ôl yn uniongyrchol i'r adran ar y materion amserlennu a godwyd yn y cyfarfod blaenorol.

PENDERFYNWYD

3. Bod Dr Alistair Shepherd, Pennaeth Dros Dro, Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, yn cael ei ethol i Fwrdd Woodrow Wilson. **[GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg]

4. Cadarnhau cymeradwyo’r cofnodion.

## 17. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad yr Is-Ganghellor (SEN2425-017)

NODWYD

1. Roedd dwy ran i'r adroddiad: adroddiad ar y prif bwyntiau a diweddariad ar ddenu myfyrwyr.

2. Yr wythnos flaenorol roedd y Brifysgol wedi croesawu'r Fonesig Nia Griffith, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru i Aberystwyth a'r diwrnod canlynol byddai'r Brifysgol yn croesawu ymweliad gan Weinidog Llywodraeth Cymru dros Addysg Uwch ac Addysg Bellach, Vikki Howell.

3. Nodwyd trafodaethau ynghylch lefel y ffioedd dysgu ar gyfer darpariaeth y flwyddyn sylfaen, yn ogystal â'r heriau ariannol parhaus sy'n wynebu'r Brifysgol yng nghyd-destun yr amgylchedd allanol, yng Nghymru ac yn y DU yn ehangach.

**18. ENWAU CYFADRANNAU A NEWIDIADAU I ORDINHAD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (SEN2425-018)

NODWYD

1. Bod y Cyngor wedi cymeradwyo'r argymhelliad gan y Senedd fod y Brifysgol yn gweithio tuag at strwythur dwy gyfadran ym mis Gorffennaf 2024. Gofynnwyd i'r Senedd nawr ystyried enwau'r cyfadrannau fel y nodwyd yn Ordinhad 21: Unedau Academaidd.

2. Bod gwaith wedi'i wneud gan grŵp y prosiect, dan arweiniad Dr Patrick Finney, i ystyried amrywiol awgrymiadau ac opsiynau. Gofynnwyd am wybodaeth a barn gan randdeiliaid allweddol gan gynnwys Gweithrediaeth y Brifysgol; Aelodau'r Senedd; Undeb y Myfyrwyr a staff o fewn y cyfadrannau.

3. Daeth yr adborth i'r casgliad nad oedd myfyrwyr yn gyffredinol yn teimlo cysylltiad â chyfadran ac nad oedd ganddynt farn gref ynghylch eu strwythur na'u henwau. Dylai enwau'r unedau fod yn gryno ac yn ddigon eang i gwmpasu'r rhan fwyaf o'r disgyblaethau yn y gyfadran briodol a gallai cynnwys meysydd pwnc penodol yn yr enw awgrymu blaenoriaethu rhai meysydd dros feysydd eraill. Wrth greu dwy gyfadran newydd, roedd hi'n bwysig nodi newid a defnyddio enwau sy'n wahanol i unrhyw rai o'r enwau presennol.

4. Nid oedd unrhyw newidiadau yn cael eu cynnig ar hyn o bryd i enwau na strwythurau'r ysgolion/adrannau a chynigiwyd y dylid galw'r ddwy gyfadran newydd (yn nhrefn yr wyddor) yn 'Cyfadran y Dyniaethau' a 'Cyfadran y Gwyddorau' a'u trefnu fel a ganlyn:

    - Cyfadran y Dyniaethau: Celf; Busnes; Addysg; Hanes a Hanes Cymru; Astudiaethau Gwybodaeth; Gwleidyddiaeth Ryngwladol; Ieithoedd a Llenyddiaeth (Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol - Ieithoedd Modern - Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd); Y Gyfraith a Throseddeg; Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

    - Cyfadran y Gwyddorau: Cyfrifiadureg; Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear; Gwyddorau Bywyd; Mathemateg; Ffiseg; Seicoleg.

ARGYMHELLWYD

5. I'r Cyngor gymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i Ordinhad 21. **[GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg]

## 19. CYNLLUN ADDYSG A PHROFIAD Y MYFYRWYR

DERBYNIWYD

Drafft o'r Cynllun Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr, a baratowyd gan yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr (SEN2425-019).

NODWYD

1. Yn sgil y dull gweithdy a ddefnyddiwyd yn y cyfarfod blaenorol i edrych ar y Strategaeth Dysgu ac Addysgu, gwahoddwyd aelodau'r Senedd i roi adborth ar ddrafft o'r Cynllun Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr, gan ystyried tri chwestiwn: 1) a wnaeth y mapio ar draws i flaenoriaethau allweddol, gan ddefnyddio adborth o'r cyfarfod blaenorol, nodi'r hyn oedd ei angen; 2) a oedd gan bob blaenoriaeth gam gweithredu cyfatebol ac ai'r camau hynny oedd y rhai cywir a 3) a oedd y Prif Ddangosyddion Perfformiad yn iawn? Er enghraifft, a ddylid cyfeirio at yr ACF fel Dangosydd Perfformiad Allweddol ac a ellid nodi mesur priodol i fesur cynnydd yn erbyn y camau addysgu a arweinir gan ymchwil.

2. Rhoddwyd cyfle i gydweithwyr drafod y cwestiynau mewn grwpiau bach ac adrodd yn ôl i'r Senedd gyfan. Cymerwyd cofnod o'r adborth i helpu'r Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) i fireinio'r cynllun. Yn gryno, gwnaed y pwyntiau canlynol:

3. Blaenoriaethau allweddol: Roedd hi'n bwysig bod yn glir ynghylch i bwy yr ysgrifennwyd y ddogfen, h.y. a oedd ar gyfer myfyrwyr, staff neu gynulleidfa gyhoeddus a myfyrio ar y dull partneriaethol a oedd eisoes ar waith gyda myfyrwyr. Roedd angen tynhau'r iaith / arddull ysgrifennu/ naws a ddefnyddiwyd yn y naratif a rhoi mwy o bwyslais ar elfennau unigryw Aberystwyth a chreu ymdeimlad o le. Gellid cyfeirio at y gymuned ehangach yr oedd y brifysgol yn gweithredu ynddi, nid yn unig ar lefel leol ond hefyd ar lefel ryngwladol. Gwnaed sylwadau ynghylch datblygu myfyrwyr i fod yn ddysgwyr mwy annibynnol ac ehangu'r cynllun fel ei fod yn ehangach na thaith y myfyriwr yn unig. Roedd ailadrodd yn rhai o'r blaenoriaethau a'r gweithgareddau allweddol a byddai'n fwy rhesymegol cynnwys rhannau o'r drafft yn y cynllun gweithredu a fyddai'n cael ei ddrafftio yng ngham nesaf datblygu'r cynllun Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr.

4. Camau gweithredu: Roedd angen mwy o waith i fod yn glir ynghylch beth ddylid ei restru fel blaenoriaeth a beth oedd yn gam gweithredu; ni chafodd rhai camau allweddol eu mapio ar unrhyw beth penodol; rhoddwyd enghraifft yn ymwneud â strwythur y pwyllgor. Croesawyd camau gweithredu yn ymwneud ag annog myfyrwyr i gydweithio, galluogi cydweithredu ymhlith cymheiriaid, meithrin a chynnal amgylchedd diogel, gan gynnwys yr amgylchedd sydd y tu hwnt i ffiniau uniongyrchol y brifysgol.

5. Dangosyddion Perfformiad Allweddol: Holodd y Senedd a oedd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'u cynllunio ar gyfer cynulleidfa fewnol neu gynulleidfa allanol. Cadarnhaodd yr Is-Ganghellor y byddai rhai DPA yn cael eu cadw'n fewnol,

gan y byddai rhai yn fasnachol sensitif. Dylid ehangu'r ffocws ar ganlyniadau cynlluniau gradd i gynnwys DPA sy’n mesur profiad y myfyrwyr a metrigau gwerth ychwanegol, er bod amheuon ynghylch defnyddio data a defnyddio'r ACF. Nodwyd yr heriau sy'n ymwneud â grwpio staff a myfyrwyr yn yr un DPA, e.e. o ran tensiynau ynghylch lles, yn ogystal â'r anawsterau o ran cipio addysgu a arweinir gan ymchwil mewn DPA ac awgrymwyd mai un opsiwn fyddai nodi cynnyrch ymchwil sy'n cyd-fynd â meysydd addysgu.

6. Diolchwyd i aelodau'r Senedd am eu hymgysylltiad cadarnhaol parhaus yn y trafodaethau ac fe'u gwahoddwyd i gysylltu â'r Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) gydag unrhyw sylwadau eraill.

PENDERFYNWYD

Y byddai’r Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) yn ystyried yr adborth a ddaeth o'r trafodaethau ac yn cyflwyno’r cynllun i Weithrediaeth y Brifysgol.
[**Gweithredu:** Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr)

## 20. Y PWYLLGOR YMCHWIL AC ARLOESI

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi (SEN2425-020)

NODWYD

Y drafodaeth ar newidiadau arfaethedig i Brosesau Ymgeisio am Grantiau a hysbysiad yr Asiantaeth Ymchwil Uwch ac Arloesi (ARIA) fel cyllidwr newydd.

### 20.1 Adroddiad Blynyddol Moeseg Ymchwil

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lisa Fisher, Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil (SEN2324-021).

NODWYD

Adroddiad mewnol oedd hwn a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol a'r Panel Moeseg Ymchwil. Roedd hefyd yn rhoi braslun cryno o'r holl weithgareddau moeseg ymchwil yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24.

### 20.2 Datganiad Uniondeb Blynyddol

Adroddiad gan Lisa Fisher, Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil (SEN2425-022).

NODWYD

1. Paratowyd y Datganiad i'w gyhoeddi yn flynyddol yn unol â'r Concordat i Hyrwyddo Uniondeb Ymchwil. Roedd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Awst 2023 a 31 Gorffennaf 2024 ac yn crynhoi statws y Brifysgol yng nghyswllt disgwyliadau'r Concordat.

Roedd yn amlinellu'r camau a gymerwyd, y gweithgareddau a gyflawnwyd a'r fframwaith sydd yn ei le i feithrin diwylliant o uniondeb ymchwil. Roedd hefyd yn rhoi crynodeb o archwiliadau a wnaed gan y Brifysgol ynglŷn â chamymddygiad mewn ymchwil.

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol ar Uniondeb i'w roi gerbron y Cyngor ac yna i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol. **[GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi)]

## 21. IS-BWYLLGORAU ACADEMAIDD Y SENEDD

DERBYNIWYD

Cylch Gorchwyl (SEN2425-023)

NODWYD

1. Roedd y Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg a'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau newydd a'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr wedi cyfarfod a thrafod eu drafft o'r cylch gorchwyl perthnasol; roedd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Senedd i'w hystyried.

2. Tynnwyd sylw'r Senedd at y cyfrifoldebau a ddatganolwyd i'r pwyllgorau academaidd, yn benodol y byddai'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau yn cymryd rhai o'r cyfrifoldebau a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Bwrdd Academaidd sef:

   a. Ystyried ac argymell y dylai'r Senedd gymeradwyo'r isod *Rheolau a Rheoliadau i Fyfyrwyr (Rheoliadau Cyffredinol ac Academaidd gan gynnwys rheoliadau a gweithdrefnau Ymddygiad Academaidd Annerbyniol) diwygiadau newydd a sylweddol i reolau a rheoliadau presennol.*

   b. Ystyried a chael yr awdurdod i gymeradwyo'r isod ar ran y Senedd: *Llawlyfr Ansawdd Academaidd gan gynnwys adrannau newydd ac adrannau sydd wedi'u diwygio'n sylweddol o'r LlAA a mân ddiwygiadau i reolau a rheoliadau*.

3. A byddai'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr yn ystyried a chael yr awdurdod i gymeradwyo'r isod ar ran y Senedd *Polisïau newydd a pholisïau sydd wedi'u diwygio'n sylweddol sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu, datblygu, cefnogi myfyrwyr, cadw myfyrwyr a chyflogadwyedd*.

4. Cynigiwyd ychwanegu ail gynrychiolydd myfyrwyr at y Pwyllgor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr (Undeb Aberystwyth - Swyddog Materion Academaidd) ac at y Pwyllgor Ansawdd a Safonau (Llywydd UMCA); y Deoniaid Cyswllt i gael eu rhestru fel un i bob cyfadran, a fyddai'n cyd-fynd â symud i ddwy gyfadran, a diwygio'r niferoedd a'r cworwm yn unol â hynny. Byddai angen diweddaru unrhyw gyfeiriadau at y Strategaeth Dysgu ac Addysgu maes o law i adlewyrchu'r newid i Gynllun Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr.

5. Roedd Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol hefyd wedi cwrdd ac wedi adolygu ei aelodaeth a'i Gylch Gorchwyl a byddai'n dod yn Bwyllgor y Ddarpariaeth Gydweithrediadol, yn unol â phwyllgorau academaidd eraill y Senedd (yn hytrach na

Bwrdd). Gallai rhai agweddau ar fusnes a adroddir ar hyn o bryd drwy Bwyllgor y Ddarpariaeth Gydweithrediadol symud i'r Bwrdd/Pwyllgor Marchnata a Denu a Derbyn Myfyrwyr fodd bynnag nid oedd y Bwrdd Marchnata a Denu a Derbyn Myfyrwyr i fod i gwrdd tan yn ddiweddarach yn y mis a byddai drafftiau terfynol Cylch Gorchwyl y ddau bwyllgor hyn yn cael eu cyflwyno i'r Senedd yn ei gyfarfod nesaf.

6. Roedd gwaith hefyd yn mynd rhagddo i sicrhau bod cyfrifoldebau'r Pwyllgor Graddau Ymchwil yn cael eu rhannu rhwng y Pwyllgor Ansawdd a Safonau a'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi.

PENDERFYNWYD

6. Cymeradwyo'r cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd a Safonau, y Pwyllgor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr a'r Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg, gyda'r gwelliannau a drafodwyd yn y Senedd, a'r newid enw i Bwyllgor y Ddarpariaeth Gydweithrediadol. **[GWEITHREDU:** Dirprwy Gofrestrydd (Ysgrifennydd y Senedd)]

## 22. Y PWYLLGOR ANSAWDD A SAFONAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (SEN2425-024)

NODWYD

1. Adroddiadau Arholwyr Allanol 2024: Roedd y Pwyllgor Ansawdd a Safonau wedi adolygu adroddiadau cryno’r Deon Cyswllt, gan ddwyn ynghyd y themâu a nodwyd yn adroddiadau’r arholwyr allanol gan sicrhau bod materion a godwyd yn cael sylw ar y lefel fwyaf priodol a chamau dilynol yn cael eu cymryd. Roedd adroddiad Adolygydd Allanol y Senedd yn gadarnhaol iawn ac yn canmol y broses. Roedd y Pwyllgor Ansawdd a Safonau hefyd wedi derbyn adroddiad ar arholiadau myfyrwyr ymchwil uwchraddedig, byddai’r adroddiad hwn wedi mynd trwy’r Pwyllgor Graddau Ymchwil yn flaenorol; byddai Ysgol y Graddedigion yn ystyried sawl mater a godwyd.

2. Monitro Blynyddol y Cynlluniau a Addysgir a Chynlluniau Gweithredu'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr: byddai unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni yn cael eu dilyn gan Bwyllgorau Gweithredol y Gyfadran. Daeth y Pwyllgor Ansawdd a Safonau i'r casgliad bod tystiolaeth glir a sicrwydd yn cael ei ddarparu trwy adroddiadau’r DCDA bod staff academaidd unwaith eto wedi ymgysylltu â’r gwaith o fonitro’r ddarpariaeth a ddysgir yn flynyddol mewn modd cadarnhaol ac adeiladol. Byddai nifer o faterion GG a thechnegol yn cael eu cyflwyno mewn trafodaethau gyda Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Gwybodaeth.

3. Adroddiadau Archwilwyr Mewnol: Cynhaliwyd dau archwiliad mewnol gan Tiaa (archwilwyr mewnol y Brifysgol) dros yr haf; cafwyd canlyniadau cadarnhaol yn y ddau archwiliad.

## 23. DATGANIAD SICRWYDD ANSAWDD

DERBYNIWYD

QAS2024 a baratowyd gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (SEN2425-025)

NODWYD

1. Diben y Datganiad Sicrwydd Ansawdd Blynyddol oedd rhoi'r dystiolaeth briodol i Gyngor y Brifysgol, fel y gallai'r Cyngor fod yn fodlon bod y Brifysgol wedi cyflawni, a'i bod yn dal i gyflawni, ei rhwymedigaethau yng nghyswllt cyfres o ddatganiadau'n ymwneud â sicrwydd ansawdd. Câi'r adroddiad ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd, i'w alluogi i gyflawni ei rwymedigaethau adrodd blynyddol i Medr.

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo'r Datganiad Sicrwydd Ansawdd a'i gyfeirio i'r Cyngor. **[GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg]

## 24. GRADDAU ER ANRHYDEDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (SEN2425-026)

NODWYD

1. Cyfarfu'r Grŵp Graddau er Anrhydedd i ystyried enwebiadau am Raddau er Anrhydedd. Roedd yr adroddiad yn nodi'r rhestr fer arfaethedig, a gofynnwyd i aelodau'r Senedd barchu natur gyfrinachol y papur. Ni fyddai'r Brifysgol yn gohebu â'r rhai sy'n cael eu hargymell am Radd er Anrhydedd tan y bydd eu henwau wedi cael sêl bendith y Cyngor. Ar ben hynny, ni fyddai enwau'r rhai y cyflwynir Gradd er Anrhydedd iddynt yn cael cyhoeddusrwydd tan haf 2025.

PENDERFYNWYD

2. Cyfeirio'r enwebiadau am Raddau er Anrhydedd i'r Cyngor i'w cymeradwyo. **[GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg]

## 25. CANGEN PRIFYSGOL ABERYSTWYTH Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Jonathan Fry, Cadeirydd y Gangen (SEN2425-027)

NODWYD

Cynnwys yr adroddiad.

## 26. ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN FWRDD Y DDARPARIAETH GYDWEITHREDIADOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Swyddfa Partneriaethau Academaidd (SEN2425-028)

NODWYD

Cynnwys yr adroddiad blynyddol.

**27. ADRODDIADAU GAN YR IS-BWYLLGORAU.**

DERBYNIWYD: Cofnodion o'r pwyllgorau canlynol (SEN2425-029):

1. Y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi (27 Medi 2024)

2. Y Pwyllgor Ansawdd a Safonau (09 Hydref 2024)

3. Y Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg (17 Hydref 2024)

4. Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (17 Hydref 2024)

5. Y Pwyllgor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr (30 Hydref 2024)

NODWYD

7. Yr adroddiadau a ddaeth o'r pwyllgorau

**28. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL**

NODWYD

1. Y byddai'r cyfarfod ffurfiol nesaf ar 12 Mawrth 2025 ond mae'n debygol y bydd cyfarfod ychwanegol yn cael ei gynnull ar ddechrau mis Ionawr ar ffurf gweithdy i aelodau'r Senedd roi adborth am gynlluniau ymchwil y brifysgol.

2. Y cynhaliwyd adolygiad Llywodraethu yn ystod yr haf a chyflwynwyd adroddiad i'r Is-Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor. Byddai'r berthynas rhwng y Senedd a phwyllgorau llywodraethu eraill bellach yn cael ei hystyried yn ystod y misoedd nesaf.

---

015 Cofnodion y Senedd 24-11-13 TERFYNOLv2

krb 2024/11/13